# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## PENNOD 3

AMRYWIOL

### 47 Uno [F1a daduno] byrddau gwasanaethau cyhoeddus

(1) Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i uno os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

F2(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Os yw dau neu ragor o fyrddau yn uno—

(a) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon (ac eithrio yn yr adran hon) at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y bwrdd unedig, a

(b) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal awdurdod lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfunedig yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r bwrdd unedig.

[F3(5) Rhaid i fwrdd unedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—

(a) y cynlluniau llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 47. (See end of Document for details)*

(b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynlluniau hynny.

(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (5), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynlluniau a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (5)(a) a (b)—

(a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a

(b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(7) Caiff bwrdd unedig, os yw'n ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant—

(a) daduno, neu

(b) daduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant, gyfarwyddo bwrdd unedig—

(a) i ddaduno, neu

(b) i ddaduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(9) At ddibenion is-adrannau (7) ac (8), mae bwrdd unedig—

(a) yn daduno os yw'n peidio â bodoli a bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer ardal pob awdurdod lleol a oedd yn aelod o'r bwrdd unedig;

(b) yn daduno yn rhannol—

(i) os yw'n parhau i fodoli fel y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd dau awdurdod lleol neu ragor, a

(ii) os sefydlir bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân ar gyfer ardal pob awdurdod lleol sydd wedi peidio â bod yn aelod o'r bwrdd unedig.

(10) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus a sefydlir ar ôl daduno neu ddaduno yn rhannol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—

(a) y cynllun llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a

(b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynllun hwnnw.

(11) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (10), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynllun a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (10)(a) a (b)—

(a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a

(b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(12) Cyn cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6) neu (11), rhaid i fwrdd ymgynghori ag—

(a) y Comisiynydd;

(b) Gweinidogion Cymru;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'r bwrdd yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 47. (See end of Document for details)*

(13) Rhaid i fwrdd anfon copi o gynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan is-adran (6) neu (11) at y personau a grybwyllir yn adran 44(6).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 47 pennawd wedi eu hamnewid (20.3.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(3)(q), **Atod. 14 para. 1(5)**

**F2** A. 47(3) wedi ei hepgor (20.3.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 165(2)**, 175(3)(q)

**F3** A. 47(5)-(13) wedi ei fewnosod (20.3.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 165(3)**, 175(3)(q)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 1.4.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 3**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 47.